Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanfairpwllgwyngyll
Ffordd Caergybi
Pwllgwyngyll
Ynys Môn
LL61 5TX

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Llanfairpwllgwyngyll

Lleolir Ysgol Llanfairpwll yn nhref Llanfairpwllgwyngyll, ar Ynys Môn.  Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.  Mae 355 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 39 oed meithrin rhan-amser.

Mae ychydig dros 3% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae hyn yn sylweddol is na’r ganran genedlaethol, sef 19%.  Mae 71% o’r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.  Mae’r ysgol wedi adnabod ychydig dros 14% o’i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.  Mae’r ganran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn is na’r ganran genedlaethol, sy’n 21%.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd ym mis Medi 2013 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Llanfairpwllgwyngyll yn gymuned hynod ofalgar a llwyddiannus lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda iawn ac yn gwneud cynnydd ardderchog. Mae'r pennaeth a'r tîm rheoli yn rhannu eu gweledigaeth am ysgol weithgar a hapus gyda'r llywodraethwyr, sy'n cyflawni eu rôl yn hynod effeithiol. Nodwedd ragorol o waith yr ysgol yw'r ffordd y mae'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn gwbl naturiol a digymell mewn gwahanol gyd-destunau wrth weithio ac yn ystod amseroedd egwyl. Mae medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y disgyblion yn hynod gadarn, ac maent yn eu defnyddio'n hyderus ac effeithiol iawn mewn amrywiol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon a'r staff yn cynllunio'n drwyadl ac yn hynod effeithiol. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu annibyniaeth disgyblion yn arloesol a llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr annibynnol hyderus. Mae'r ysgol yn rhoi sylw arbennig i ddatblygu'r plentyn cyflawn, gan ddathlu llwyddiannau unigolion a datblygu hyder pob un i gyflawni hyd eithaf ei allu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Lledaenu arferion rhagorol yr addysgu ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar y ffordd llwyddiannus y mae athrawon yn cynllunio ar gyfer datblygu annibyniaeth y disgyblion, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, mae medrau llythrennedd Cymraeg a rhifedd llawer o'r disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, neu sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd ardderchog. Mae'r rhan fwyaf yn cyflawni'n dda iawn yn unol â'u hoed a'u gallu.

Mae medrau llafaredd bron pob disgybl yn ardderchog. Mae disgyblion y blynyddoedd cynnar yn gwrando'n ofalus gan fynegi barn yn aeddfed, er enghraifft wrth drafod cymeriadau yn y stori 'Syrpreis Handa.' Mae disgyblion pen uchaf y cyfnod sylfaen yn siarad yn fyrlymus mewn amrediad eang o gyd-destunau. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae bron bob disgybl yn siarad â lefel dda iawn o gywirdeb, ac yn mynegi barn a holi cwestiynau yn hynod aeddfed. Er enghraifft, wrth drafod chwedl Branwen a Bendigeidfran ym Mlwyddyn 3 a 4, mae disgyblion yn cynnig awgrymiadau ac yn llunio casgliadau ynglŷn â chymeriadau. Nodwedd gref a chyson o waith yr ysgol yw'r ffordd y mae'r disgyblion yn defnyddio iaith raenus yn naturiol a digymell.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda iawn. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau darllen cynnar yn fuan ac yn magu hyder wrth fwynhau gweithgareddau cyfoethog. Mae ganddynt fedrau ffonig cadarn wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr medrus. Maent yn darllen yn rhwydd gan amrywio goslef llais a chymeriadu'n effeithiol. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn ystyried effaith eu darllen ar y gwrandäwr, ac yn trafod eu llyfrau'n hynod fedrus gan fynegi barn yn aeddfed iawn. Maent yn cywain gwybodaeth o amrywiol ffynonellau yn fedrus i gyfoethogi eu gwaith.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn ysgrifennu'n hynod effeithiol. O'r cychwyn cyntaf, maent yn cofnodi llythrennau, cymalau a geiriau syml ac yn datblygu hyder yn gyflym. Er enghraifft, maent wedi mwynhau ysgrifennu neges wreiddiol i'w gosod mewn potel fel rhan o'u gwaith thema ar fôr-ladron. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ysgrifenwyr creadigol a medrus. Maent yn atalnodi a sillafu'n gywir ac yn cyfoethogi eu gwaith trwy wneud defnydd effeithiol iawn o ansoddeiriau, er enghraifft wrth ysgrifennu portread o'r cymeriad 'brig-ddyn'.

Ar draws cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n aeddfed iawn mewn amrediad eang o gyd-destunau. Mae'r rhan fwyaf yn strwythuro eu gwaith yn gywir yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan arddangos gafael gadarn ar gystrawen ac atalnodi. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu i amrywiol bwrpasau yn hynod effeithiol. Erbyn pen uchaf cyfnod allweddol 2, mae llawer yn creu darnau creadigol, dychmygus ac yn gwneud defnydd o effeithiau a chymariaethau yn llwyddiannus i gyfoethogi eu gwaith. Mae llawer o'r disgyblion mwyaf galluog yn ysgrifenwyr aeddfed a hynod greadigol. Maent yn cynhyrchu gwaith o safon uchel iawn, er enghraifft wrth lunio hunangofiant peilot fel rhan o'u gwaith thema ar yr Ail Ryfel Byd.

Ar draws y cyfnod sylfaen, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn iawn ar ffeithiau rhif, siâp a data ac maent yn defnyddio'u medrau hyn yn hyderus wrth ddatrys problemau. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus mewn amrediad cyfoethog o gyd-destunau, er enghraifft wrth ddefnyddio clorian i ymchwilio a chymharu mas gwahanol ffrwythau yn y dosbarth Meithrin. Maent yn mwynhau cael eu herio ac yn gweithio'n annibynnol, gan arddangos lefel uchel o ddyfalbarhad.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda iawn. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus mewn amrediad o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyfesurynnau manwl i ddod o hyd i fannau penodol ar fap o Ynys Môn ym Mlwyddyn 3 a 4. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn deall y berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau ac yn defnyddio eu gwybodaeth wrth ddatrys problemau. Maent yn ymateb yn aeddfed i heriau penagored a thasgau annibynnol o fewn 'yr awr athrylith,' lle cânt gyfleoedd estynedig i wneud penderfyniadau a defnyddio eu medrau'n greadigol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn dda. Maent yn defnyddio amrediad eang o offer a meddalwedd yn hyderus, er enghraifft wrth reoli robot ac wrth ddefnyddio rhaglenni amrywiol i atgyfnerthu eu llythrennedd. Maent yn cofnodi a gwerthuso eu gwaith yn aeddfed gan ddefnyddio cyfrifiaduron llechen yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio amrediad da iawn o offer a meddalwedd yn hyderus i gefnogi eu gwaith mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn creu animeiddiad fel rhan o'u gwaith ar y thema 'O dan y môr.' Mae'r rhan fwyaf yn cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn fedrus, gan ddefnyddio gwybodaeth yn llwyddiannus i gyfoethogi eu gwaith.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn yn y gwersi ac yn ystod amser egwyl. Maent yn hynod gwrtais a pharchus tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn nodweddiadol o'r gydberthynas adeiladol a chefnogol sy'n bodoli ar draws cymuned yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol iawn ac mae'r disgyblion hŷn a'r "ffrindiau ffeind" yn dangos gofal arbennig am eu cyfoedion iau ar y buarth ac wrth symud o amgylch yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb i unrhyw bryderon sydd ganddynt yn brydlon.

Mae bron pob un disgybl yn falch o'u diwylliant Cymreig a'u Cymreictod. Mae'r rhan fwyaf yn siarad Cymraeg yn raenus ac yn hollol naturiol gyda'u cyfoedion ac yn deall mantais bod yn gwbl ddwyieithog yn eu bywydau pob dydd. Trwy amrediad cyfoethog o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol, maent yn cyfranogi'n llawn yn y diwylliant lleol ac yn ehangach.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth am fwyta ac yfed yn iach. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gwahaniaethu'n hyderus rhwng bwydydd iach a phethau nad ydynt mor iachus iddynt, a sut mae gwahanol fwydydd yn effeithio ar y corff. Mae'r disgyblion hŷn yn deall bod ymarfer y corff yn rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu ffitrwydd, iechyd a lles corfforol. Mae bron pob un

disgybl yn mynychu gwersi nofio ac yn cymryd rhan mewn clybiau allgyrsiol a chwaraeon yn rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar iechyd a'u medrau personol a chymdeithasol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u rolau arwain o fewn yr ysgol. Mae aelodau'r cynghorau dosbarth, y cyngor ysgol, y cyngor eco a'r pwyllgor siarter iaith yn cyflawni eu rolau'n fedrus ac yn gwneud cyfraniad amlwg at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn chwarae rhan flaenllaw yng ngweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol ac yn trafod, mireinio a gosod trefn ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu. O ganlyniad, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd eu cyfraniad at ddatblygiad yr ysgol ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i wneud hynny. Trwy ddatblygu perthynas reolaidd a gwerthfawr gydag aelodau'r gymuned leol, mae gan bron pob un disgybl ymwybyddiaeth dda iawn o anghenion pobl eraill. Mae hyn yn eu galluogi i sylweddoli nad yw pawb mor ffodus â nhw. Maent yn cyfrannu'n helaeth at ystod eang o ddigwyddiadau, cyngherddau a gweithgareddau cymdeithasol. Er enghraifft, maent yn ymweld â chartrefi'r henoed yn rheolaidd i gyfarfod a diddanu'r trigolion, ac yn canu carolau tra'n goleuo'r goeden Nadolig.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu. Maent yn datblygu'n ddysgwyr brwdfrydig, annibynnol ac yn ymateb yn dda iawn i'r ethos gofalgar a chynhwysol sy'n rhan annatod a hynod effeithiol o fywyd yr ysgol. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un disgybl yn manteisio'n rheolaidd ar gyfleoedd i leisio barn am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Maent bob amser yn barod i ddysgu, ac yn arddangos lefel arbennig o annibyniaeth. Maent yn frwdfrydig mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig wrth gwblhau eu gweithgareddau.

Mae bron pob un yn cydweithio'n arbennig o effeithiol gyda'u cyfoedion mewn grwpiau ac mewn parau ac yn dangos lefel uchel o aeddfedrwydd a pharch at farn eraill. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n llwyddiannus at lwybrau dysgu dilynol ac yn mynegi barn am y gweithgareddau yr hoffent eu gwneud yn yr ardaloedd dysgu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dewis llwybrau dysgu dychmygus er mwyn cwblhau tasgau estynedig. Maent yn dewis targedau'n annibynnol ac yn herio eu dysgu eu hunain er mwyn pennu cyfeiriad dysgu clir. O ganlyniad, mae llawer yn cynhyrchu gwaith o ansawdd da iawn, gan wneud cynnydd ardderchog. O oed cynnar, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith, er enghraifft trwy drafod meini prawf llwyddiant ac wrth werthuso eu targedau personol yn annibynnol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Dros gyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion wedi ymateb yn dda iawn i dargedau mewnol yr ysgol ac maent yn ymfalchïo mewn derbyn clod am bresenoldeb uchel.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r disgyblion yn hynod effeithiol. Mae'r cynlluniau wedi eu seilio ar ffurf themâu cyffrous sydd yn ennyn diddordeb bron pob disgybl yn llwyddiannus. O'r cychwyn cyntaf, mae pwyslais ar gynllunio gweithgareddau sydd yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu gwydnwch a dyfalbarhad wrth gyflawni eu gwaith.

Un o gryfderau pennaf y gweithdrefnau cynllunio yw'r modd y maent yn adeiladu'n gelfydd ar waith blaenorol ac yn sicrhau dilyniant a pharhad ym medrau dysgu annibynnol y disgyblion wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae tasgau'r ddraig yn herio'r disgyblion i weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r tasgau herio yn parhau, a'r disgyblion yn raddol cymryd mwy o gyfrifoldeb am ddewis lefel yr her y maent am ei chwblhau yn eu gweithgareddau. O ganlyniad i'r trefniadau hynod effeithiol hyn, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol hyderus iawn.

Mae'r cynllunio yn cynnwys cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddewis y modd maent am ddysgu ac i benderfynu ar y dull gorau o gofnodi eu gwaith. Gan hynny, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymroi'n llwyr i'w dysgu ac yn ymfalchïo yn eu llwyddiant.

Mae'r cynlluniau yn adeiladu'n gelfydd ar ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion arwain eu dysgu eu hunain. Yn y cyfnod sylfaen, mae cynlluniau'r gwersi yn sicrhau bod y disgyblion yn deall meini prawf llwyddiant y tasgau yn glir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r cynlluniau'n datblygu ar sail y ddealltwriaeth hon yn llwyddiannus iawn. Maent yn cynnwys unedau gwaith ysgogol sydd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iawn i'r disgyblion bennu meini prawf llwyddiant eu hunain a gwerthuso eu gwaith. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn arwain eu dysgu yn annibynnol yn hynod lwyddiannus ac yn penderfynu ar y camau dysgu sy'n angenrheidiol i gwblhau'r tasgau. Ar ddiwedd yr uned, maent yn gwerthuso eu gwaith yn fedrus, gan fesur eu llwyddiant yn erbyn y meini prawf yn drwyadl. Mae effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn arloesol, yn greadigol ac yn llwyddiannus iawn.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau dysgu gwerthfawr iawn i'r disgyblion. Er enghraifft, ar frig yr ysgol, mae'r athrawon yn cynnig awr yr wythnos i'r disgyblion weithio'n annibynnol ar brosiect sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn dewis y thema, yn casglu adnoddau, cywain gwybodaeth ac yn cyflwyno eu gwaith ar ffurf o'u dewis nhw eu hunain. Mae'r trefniadau hyn yn ennyn diddordeb y disgyblion yn eithriadol lwyddiannus ac yn sicrhau bod ansawdd y gwaith gorffenedig yn dda iawn. Mae'r enghreifftiau da o waith y disgyblion yn cynnwys ysgrifennu canllawiau i ganu'r piano trwy gyfrwng y Gymraeg, stori i blant 6 oed a llyfryn yn hybu nofio er mwyn cadw'n iach.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn effeithiol iawn. Er enghraifft, maent yn annog y disgyblion i ddysgu am hanes eu hardal leol trwy ymweliadau â Chastell Penrhyn a Bryn Celli Ddu. Maent yn trefnu i'r disgyblion astudio gwaith artistiaid ac awduron o Gymru a chystadlu mewn eisteddfodau yn rheolaidd.

Mae'r cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn effeithiol a chynhwysfawr iawn. Maent yn cynnwys cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion gymhwyso eu medrau trwy weithgareddau diddorol ar draws pynciau'r cwricwlwm a'r meysydd dysgu. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu creadigrwydd y disgyblion yn gryfder arbennig, ac o ganlyniad, mae ansawdd y gwaith celf o gwmpas yr ysgol yn ardderchog.

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda, ac yn yr arfer orau yn fyrlymus ac yn tanio dychymyg bron pob disgybl. Mae'r oedolion i gyd yn fodelau rôl ieithyddol hynod fedrus. Maent yn annog y disgyblion i ddefnyddio patrymau iaith cywir ac i ehangu

eu geirfa yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn hyderus, gan ddefnyddio iaith raenus. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio amrywiol dechnegau holi medrus i ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Maent yn darparu adborth llafar ac ysgrifenedig effeithiol iawn iddynt, sy'n amlygu'r camau nesaf yn eu dysgu yn llwyddiannus iawn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar a chyfeillgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da yn llwyddiannus. Mae athrawon a chymorthyddion yn sicrhau bod y disgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd neu anawsterau cymdeithasol yn derbyn cefnogaeth o ansawdd effeithiol iawn. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ymgysylltu'n dda iawn â'u dysgu. Enghraifft arbennig lle mae hyn yn llwyddiannus yw'r sesiynau ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad emosiynol a chodi hunanhyder disgyblion. Mae'r gweithgareddau hyn yn galluogi disgyblon i siarad am eu teimladau mewn grwpiau bach, cynhaliol. O ganlyniad, maent yn magu hyder ynddynt eu hunain ac yn deall pwysigrwydd rhannu pryderon. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn arbennig o dda ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol iawn â nhw.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol iawn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae staff yn annog y disgyblion i gymryd rhan reolaidd yn y clybiau allgyrsiol a ddarperir iddynt. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn deall pwysigrwydd byw yn iach ac yn dylanwadu ar eu cyfoedion yn hynod lwyddiannus trwy eu hannog i wneud dewisiadau doeth.

Wrth weithredu sesiynau amser cylch a chyfnodau ymyrraeth lles ar gyfer grwpiau penodol, mae'r ysgol yn gweithredu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol werthfawr. Mae'r agwedd hon yn cael sylw cyson a thrylwyr ar draws y cwricwlwm. Mae ymweliadau i'r capel a chyfleoedd i ddisgyblion berfformio mewn cyngherddau yn yr ardal leol a thu hwnt yn hybu eu datblygiad cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol iawn. Mae'r gwasanaethau boreol, a'r sesiynau amser cylch, hefyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn dda iawn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliannau gwahanol yn effeithiol iawn trwy ddefnyddio testunau penodol o wahanol wledydd, a thrwy e-gysylltiadau cyffrous. Enghraifft nodedig o hyn yw'r cysylltiadau sydd wedi eu datblygu gydag ysgol yng Nghanada. Mae'r ysgol hefyd yn ymateb yn ddychmygus i ddisgyblion sydd â chysylltiadau â gwahanol wledydd neu ddiwylliannau. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dathlu gwahaniaethau ac yn parchu amrywiaeth yn aeddfed iawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gyson a thrylwyr iawn. Mae athrawon yn defnyddio amrediad effeithiol o weithdrefnau manwl i adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn llythrennedd, rhifedd a lles. Mae'r cynlluniau addysg unigol ar gyfer y disgyblion hyn yn fanwl ac yn nodi camau datblygiad mesuradwy. O ganlyniad, mae staff yn darparu rhaglenni ymyrraeth llwyddiannus iawn i sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Defnyddir cymorthyddion dysgu yn llwyddiannus ar draws yr ysgol i roi cefnogaeth addysgol i ddisgyblion unigol ac i weithredu ystod o raglenni ymyrraeth iddynt. Mae'r gefnogaeth hon yn cael ei gweithredu'n gynnil a medrus. Trwy wneud hyn, mae'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn llawn yn holl weithgareddau dysgu ac allgyrsiol yr ysgol ac yn gwneud cynnydd da iawn yn erbyn eu targedau.

Mae gweithdrefnau llwyddiannus yr ysgol yn galluogi athrawon i adnabod anghenion yr holl ddisgyblion yn gynnar iawn ac i ddarparu’n effeithiol ar eu cyfer. Mae’r defnydd cyson a manwl o systemau olrhain cynnydd yn sicrhau bod staff yn targedu grwpiau o ddisgyblion yn drwyadl er mwyn eu symud ymlaen at y camau nesaf yn eu dysgu. Mae’r gweithdrefnau hyn yn plethu’n gelfydd gyda’r ffordd y mae’r ysgol yn hyrwyddo annibyniaeth y disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf iawn dros amser.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn effeithiol iawn. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu profiadau dychmygus i ddisgyblion drwy weithdai celf a cherdd, a’u cefnogi i gystadlu’n llwyddiannus mewn eisteddfodau. Yn ogystal, mae’r staff yn trefnu cyfleoedd cyfoethog ac amrywiol i’r disgyblion ymweld â chanolfannau preswyl ac i gynrychioli’r ysgol mewn gweithgareddau chwaraeon, gan flasu llwyddiant rheolaidd ar lefel ranbarthol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymfalchïo yn eu llwyddiannau a’u cynnydd, ac yn falch o’u hymdrechion. Mae hyn yn cyfrannu’n gadarnhaol iawn tuag at baratoi’r disgyblion i fod yn ddinasyddion hyderus, annibynnol ac aeddfed y dyfodol.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn flaengar a chadarn ac yn sicrhau bod gan yr ysgol ddiwylliant cryf a chyson o godi safonau. Mae ganddo weledigaeth angerddol a chlir ar gyfer datblygu’r ysgol, sy’n cael ei rhannu’n frwd gyda phob un o’r staff a’r llywodraethwyr. Mae ei ddisgwyliadau uchel yn deillio o werthoedd addysgol clir ac amcanion uchelgeisiol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae’r pennaeth yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff fel arweinwyr yn yr ysgol a thu hwnt yn llwyddiannus iawn. Mae aelodau staff yn arwain ar feysydd penodol ar draws yr awdurdod lleol, fel hyrwyddo’r fframwaith cymhwysedd digidol a materion rheolaethol. Mae hyn yn darparu cyfleoedd iddynt rannu a datblygu arferion dysgu proffesiynol, sy’n cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd a lles disgyblion ynghyd â’u hagweddau at ddysgu.

Mae aelodau’r uwch dîm rheoli yn gweithio’n eithriadol o effeithiol. Maent yn frwdfrydig iawn ac yn cefnogi’r pennaeth yn ardderchog. Maent wedi ymrwymo i hyrwyddo addysgu effeithiol sy’n seiliedig ar brofiadau dysgu ysgogol a heriol. Maent yn annog a meithrin ethos cadarnhaol a gofalgar o gydweithio, yn seiliedig ar gymorth ac arweiniad bugeiliol i bob aelod staff, yn ogystal â’r disgyblion. Mae’r nodwedd hon yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae uwch arweinwyr yn gweithio’n llwyddiannus iawn gydag athrawon i wella agweddau o waith yr ysgol, yn enwedig wrth ddatblygu’r cwricwlwm trwy gyflwyno profiadau cyffrous i’r disgyblion, a sicrhau parhad yn natblygiad eu medrau trwy waith tîm hynod effeithiol. Mae staff cymorth yn rhan annatod o’r tîm hwn ac yn cyfrannu’n llwyddiannus at wella safonau a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad cadarn, ac mae cyfleoedd hyfforddi llwyddiannus yn deillio ohonynt i ddiwallu anghenion proffesiynol y staff yn drylwyr. Mae bron pob aelod staff yn elwa ar gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol sy’n bodloni blaenoriaethau’r ysgol a’u dyheadau personol yn

effeithiol. Mae'r pennaeth yn arbennig o lwyddiannus yn adnabod arbenigeddau a chryfderau unigolion, ac o ganlyniad, yn dyrannu cyfrifoldebau'n bwrpasol iawn iddynt. Mae aelodau'r staff yn gwerthfawrogi ei ymddiriedaeth ynddynt i ddatblygu meysydd dysgu, codi safonau disgyblion a chynnig darpariaeth o'r safon orau.

Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r modd y mae'r pennaeth wedi datblygu rôl y corff llywodraethol i sicrhau bod gan ei aelodau ddealltwriaeth gadarn o berfformiad a gweithdrefnau'r ysgol trwy waith blaengar yr is-banelau. Enghraifft effeithiol iawn o hyn yw'r modd heriol a thrylwyr mae'r llywodraethwyr yn monitro blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae aelodau'r corff yn grŵp brwdfrydig sy'n cynnig cymorth adeiladol i'r tîm arweinyddol ac yn rhannu arbenigeddau proffesiynol, gwerthfawr mewn meysydd penodol o waith yr ysgol. Mae eu mewnbwn strategol i'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn hynod effeithiol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o hunanarfarnu parhaus, sy'n canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r broses yn drylwyr a llwyddiannus iawn o ran galluogi arweinwyr i fonitro ac arfarnu perfformiad yr ysgol yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau hinsawdd lwyddiannus o dargedu a herio disgyblion i gyrraedd hyd eithaf eu gallu a gwneud gwelliannau cyraeddadwy. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio ystod eang o ddata yn effeithiol i arfarnu cyflawniadau a chynnydd disgyblion. Maent yn annog safbwyntiau a barn disgyblion a rhieni'n barhaus. Er enghraifft, maent wedi ehangu rôl y cyngor ysgol i nodi trefn pwysigrwydd blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar ddisgyblion, sy'n gwerthfawrogi fod y pennaeth a'r staff yn ystyried a chynnwys eu barn mewn dogfennau strategol.

Mae cynllun datblygu cynhwysfawr yr ysgol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddeilliannau'r broses hunanarfarnu, ac yn cynnwys manylion am y prif flaenoriaethau yn glir. Mae'r ddogfen yn cynnwys cynlluniau a chamau gweithredu manwl. Mae arweinwyr yn dyrannu cyfrifoldebau'n effeithiol iawn i arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth trwy raglen strwythuredig o weithgareddau monitro ac adolygu.

Mae gan yr ysgol amrediad da o adnoddau ac mae arweinwyr yn sicrhau defnydd medrus o'r gyllideb i wella'r ddarpariaeth yn barhaus. Caiff gwariant ei reoli a'i fonitro'n bwyllog, ac mae'n cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol. Mae ysgol yn llwyddiannus o ran sicrhau cyllid ychwanegol sylweddol trwy amrywiaeth o drefniadau a chynlluniau sy'n effeithio'n gryf ar safonau a datblygiad creadigol disgyblion. Er enghraifft, mae cyfraniad cymdeithas y rhieni ac athrawon i ddatblygu rhan arbennig o'r ardal allanol wedi cynnig profiadau ysgogol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i wella safonau llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â darparu cymorth hanfodol i gefnogi lles emosiynol disgyblion. Mae hyn wedi bod yn ddatblygiad llwyddiannus iawn yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n cael eu targedu yn gwneud cynnydd da iawn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/08/2018